

# PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO

## 28 Tachwedd 2018

Yn bresennol: Mr A Archer (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker, Cynghorydd P Harries (dirprwyo dros y Cynghorydd D Clements), Mrs G Hayward, Dr R Heath Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd R Owens.

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 1.55pm – 3.00pm)

### 1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wrth y Cynghorydd D Clements a'r Cynghorydd M Williams.

### 2. Buddiant

Doedd yna ddim datganiadau o fuddiant.

### 3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2018 eu cyflwyno er mwyn eu cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2018.

### 4. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad cyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod y gwahaniaeth rhwng Ymosodedd Llafar a Cham-drin Llafar. Esboniwyd fod Ymosodedd Llafar yn fwy difrifol am ei fod yn ymwneud â bygythiad o drais.

**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad cyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018.

### 5. Adroddiad Archwiliad Mewnol 2018/19

Croesawyd Mr Robin Pritchard o Gateway Assure, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, gan y Cadeirydd. Esboniodd Mr Pritchard fod yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau yn ganlyniad gwaith a wnaed gogyfer â Bloc 1 o'r Cynllun Archwilio Gweithredol 2018/19, a oedd wedi'i gymeradwyo ynghynt gan y Pwyllgor, ac roedd hwn yn ymwneud â Rheolaeth Gorfforaethol, Castell Henllys a Rheoli Risg.



Cynghorodd Mr Pritchard wedi iddo edrych ar y tair adran, nad oedd yna broblemau sylfaenol, gyda dim ond blaenoriaeth arwyddocaol yn cael ei roi i'r rheoli risg ei hun; o ystyried yr amser a oedd wedi mynd heibio ers paratoi'r adroddiad roedd yn derbyn fod nifer o'r argymhellion a wnaed wedi'u gweithredu yn ôl pob tebyg. Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol, gan nodi o ran Rheolaeth Gorfforaethol roedd yna ddiweddariad o'r archwiliad sgiliau wedi'i wneud yn ddiweddar, ar archiad proses recriwtio arfaethedig Llywodraeth Cymru am Aelodau newydd i'r Awdurdod. Cadarnhawyd hefyd bod y Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ei le.

O droi at Gastell Henllys, nododd yr adroddiad nad oedd yna ar hyn o bryd gynllun busnes penodol ar gyfer Castell Henllys, ond bod swyddogion wedi cytuno y byddai cynllun gwasanaeth twristaidd yn cael ei greu ar draws pob safle. O ran yr argymhelliad ynghylch casglu arian, holodd yr Aelodau a fyddai angen trefniant diogelwch dros dro i warchod aelodau unigol o'r staff pe bai arian yn cael ei gadw ar y safle o ganlyniad i gyfran o daliadau yn cael eu gwneud ag arian parod o gymharu â chardiau. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol nad oedd problemau ynghylch naill ai staff nac arian, ond, fodd bynnag, y pryder oedd teithiau pellach i staff o ganlyniad i gau banciau lleol. Credai un Aelod, ar sail ei brofiad ei hun, nad oedd arian yn cael ei ddefnyddio mewn oddeutu dwy ran o dair o'r taliadau, fodd bynnag, nododd y Prif Swyddog Gweithredol bod llawer o'r plant oedd yn ymweld â'r safle yn cludo arian poced ac, felly, roedd rhywfaint o arian i'w fancio. Nododd un Aelod bod yna Swyddfa Bost mudol nawr yn Eglwyswrw.

Roedd adran derfynol yr adroddiad yn ymwneud â Rheoli Risg, ac argymhellwyd y dylid defnyddio matrices 4x4 yn hytrach na'r matrices 3x3 a oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Cafwyd cyflwyniad wedyn ynghylch yr agwedd wahanol hon o drin rheoli risg a oedd yn ei hanfod yn ymwneud â rheolaeth dda, wedi'i gefnogi gan dair llinell amddiffyn sef polisiâu priodol, adroddiadau cynnydd gan reolwyr hŷn a gwaith yr archwiliad mewnol. O ystyried bod gan rhai Aelodau brofiad ymarferol o reoli risg, gofynnodd y PSG ai dyma'r agwedd y dylai'r Awdurdod ei fabwysiadu. Cytunodd yr Aelodau y byddai o gymorth ac fe gynghorodd y PSG y gellid datblygu templed newydd a'i gyflwyno yn un o gyfarfodydd y dyfodol. Gwelodd yr Aelodau werth gweld y tabl cyflawn o risgiau fel eu bod yn dal i fedru gweld y risgiau nad oedden nhw'n uchel ar y rhestr, a dywedodd y PSG y gellid newid golwg a dyluniad y system fel bod gwybodaeth o bwys uchel yn cael ei ddarparu trwy dabiliau fyddai yn eich arwain at lefel ddyfnach. Cynigiodd ac eiliodd yr Aelodau y dylid datblygu agwedd newydd o adrodd rheoli risg. Nodon nhw hefyd mai 3 argymhelliad oedd yn yr adran hon mewn gwirionedd ac nid 4 fel roedd wedi'i nodi ym mharagraff 1.7.



Yn olaf nodwyd bod gwaith Bloc 2 nad oedd yr archwilwyr mewnol wedi llwyddo i'w wneud ym mis Hydref, oherwydd absenoldeb y Swyddog Cyllid, nawr yn cael ei wneud ym mis Chwefror ac yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** y dylid datblygu Cofrestr Risg mewn diwyg newydd a'i gyflwyno gerbron un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol, ac y dylid nodi gweddill yr adroddiad.

## 6. Cofrestr Risg

Gyda chytundeb y Cadeirydd deliwyd â'r eitem hon yn gynharach nag oedd wedi'i nodi ar yr agenda er mwyn dilyn y drafodaeth ar reoli risg. Adroddwyd na fu newid arwyddocaol yn y Gofrestr ers y cyfarfod diwethaf. Holodd yr Aelodau ynghylch cynnydd y system Dogfen Rheoli ac esboniodd y PSG bod y cwmni a oedd yn cael ei ddefnyddio gan yr Awdurdod wedi cael ei brynu a thra bod hyn wedi achosi oedi roedd cwblhau nawr ar fin digwydd. Nodwyd hefyd wrth i'r amgylchiadau ynghylch BREXIT ddod yn gliriach y gallai fod yn bosib gosod mesurau lliniaru yn eu lle.

## NODWYD.

## 7. Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2017-18

Roedd yr adroddiad Iechyd a Diogelwch yn hysbysu'r Aelodau o faterion a gweithgareddau yn ymwneud â rheoli a gweithredu iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod yn ystod 2017-18 ac yn edrych ymlaen at 2018-19.

Roedd yr Adroddiad yn esbonio bod yr Awdurdod yn rhoi pwyslais mawr ar gofnodi digwyddiadau a'r hyn a 'allai fod wedi digwydd' ac roedd yna, felly, llawer o ddigwyddiadau er bod y rhain yn dangos bod y nifer yn lleihau. Roedd yna hefyd ostyngiad mewn absenoldeb oherwydd salwch bod o dan bwysau, iselder a gofid a doedd yna'r un absenoldeb tymor hir yn ystod y cyfnod. Graddfa absenoldeb salwch APCP oedd 5.8 diwrnod fesul gweithiwr o gymharu â chyfartaledd sector cyhoeddus o 8.5 diwrnod. Cadwyd llygad clos ar y ffigyrau oherwydd y posibilrwydd o gynnydd ond doedd hyn ddim wedi digwydd. Oherwydd natur gorfforol eu gwaith roedd salwch gweithwyr awyr agored ychydig yn uwch o gymharu â staff mewn swyddfa a'r rheiny yn y Canolfannau. Roedd yr Aelodau am wybod a oedd mwy o bwysau ar y staff oherwydd y toriadau o fewn yr Awdurdod. Esboniodd y Rheolwr Personél bod gweithdai wedi'u cynnal ac roedd rheolwyr wedi bod yn gweithio ar asesiadau risg gweithio o dan bwysau a chanolbwyntio ar ffactorau trefniadol er mwyn canfod a oedd yna faterion nad oedden nhw'n cael eu hamlygu mewn absenoldeb salwch megis pennau tost.



[Cyflwynodd Dr Rachel Heath Davies ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod.]

Gofynnodd Aelodau ynghylch hyfforddiant trafod â dwylo gan nodi fod hyfforddiant Cyngor Sir Penfro (CSP) yn orfodol i bob aelod o staff. Cyngorodd y Rheolwr Personél bod hyfforddiant ymarferol pwrpasol yn cael ei ddarparu ble bynnag mae'n briodol; fodd bynnag, roedd hi mewn cyswllt â Dysgu a Datblygu CSP, ac roedd trafodaethau yn dal ar y gweill ynghylch mynediad i'w cyrsiau e-ddysgu.

Yn olaf nododd un o'r Aelodau bod Aelod nad yw'n eistedd ar y Pwyllgor hwn wedi bod yn gofyn am wybodaeth ynghylch iechyd a diogelwch, a gofynnodd a oedd yr agendau ar gyfer y Pwyllgor hwn ar gael i bob Aelod. Cytunodd y PSG y gellid darparu dolen i bapurau pob cyfarfod i bob Aelod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2017-18.

#### **8. Adroddiad Perfformiad Cyllideb Chwe Mis at fis Medi 2018**

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn dangos taw ar Fedi'r 30<sup>ain</sup>, y gwir wariant refeniw oedd £2,253,000, £57,000 (2.5%) yn is na'r gyllideb oedd wedi'i ddarogan, ac roedd y prif resymau am yr amrywiant wedi'u gosod allan. Roedd manylion y Rhaglen Gyfalaf a'r hyn a oedd wrth gefn i'w Ddefnyddio ac wedi'i Glustnodi hefyd wedi'u rhoi.

Nodwyd bod y refeniw meysydd parcio yn unol â'r gyllideb, er fe nododd un Aelod fod yr incwm ym Maes Parcio Saundersfoot wedi gostwng £3,000 ac roedd o'r farn fod hynny am fod dalwyr tocynnau tymor yn cymryd y lleiniau. Gobeithiai y gellid adolygu'r prisiau am barcio cerbydau yn un o gyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol.

**NODWYD.**

#### **9. Adroddiad Perfformiad at y Cyfnod Cwpla ar 30<sup>ain</sup> Medi**

Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn arweiniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'i saith amcan llesiant, ynghyd ag adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth lywodraethol cyffredinol. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno perfformiad yn ymwneud â mesurau a gweithrediadau am y cyfnod yn diweddu 30<sup>ain</sup> Medi. Nodwyd yn y cyfarfod bod yna wall yn yr adroddiad o ran rhai tablau ystadegau chwarterol - lle'r oedd y golofn yn cyfeirio at chwarter 1 fe ddylai ddweud 2018/19 nid 2017/18. Hefyd fe ddylai ystadegau C1 a C2 ar gyfer Gallu i Gerdded 2017/18 ddweud 1035 nid 692.



Holodd yr Aelodau a oedd yna awgrym o drosiant ar gyfer y caffî yng Nghastell Caeriw am y byddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn gwybod beth yw adenillion y buddsoddiad. Roedd y PSG yn credu bod yna warged o tua £10,000 i £12,000 ac o ystyried ei fod yn gaffî newydd yn ei dymor cyntaf yn hynod o galonogol ond bwriadai wirio'r ffigwr.

Holodd yr Aelodau hefyd ynghylch y posibilrwydd o fesur yr ymwneud gydag ieuencid ac roedd y swyddfa wedi'u cyfeirio at y ffigyrau am y nifer o geidwaid ieuanc a chyfranogwyr y bu ymwneud â nhw trwy gynhwysiad cymdeithasol gyda phobl ifanc ar dudalen 72 o'i hadroddiad; roedden nhw hefyd wedi'u calonogi gan y nifer uchel o blant ysgol oedd wedi mynychu'r gweithgareddau a gyflwynwyd yn Gymraeg. Wrth gynnig sylwadau ar rai o'r materion y tynnwyd sylw atyn nhw gan faner goch nododd yr Aelodau nad oedd yr un Wobr Teulu John Muir wedi'u cwblhau, ac y byddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn gwybod canlyniadau'r adolygiad pan fyddai wedi'i gwblhau. Nodon nhw hefyd bod effeithlonrwydd adnoddau a gwaith rheoli cerbydau yn eithriadol ac ymatebodd y Prif Weithredwr trwy ddweud y byddai Arolwg Carbon NRW yn cael ei gynnal a bod mewnbyn allanol i'r modd o reoli'r fflyd o gerbydau wedi'i gytuno.

## **NODWYD.**

### **10. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd yna faterion o bryder y dymunai'r Pwyllgor eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

